**Jayne Bryant AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai**
**Cabinet Secretary for Housing and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref JB/PO/40/26

John Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai

23 Ionawr 2026

Annwyl John

Ymatebais yn ffurfiol heddiw i adroddiad y Pwyllgor ar *Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2026-27*.

Yn y sesiwn graffu, fe wnes i hefyd ymrwymo i roi ymateb ysgrifenedig i'r aelodau ar argaeledd y cyfrifiad Asesiad o Wariant Safonol (SSA) ar gyfer pob awdurdod. Gweler y cyfrifiad hwn isod.

**<u>Asesiad o Wariant Safonol:</u>**

Mae'r wybodaeth sylfaenol ar gyfer y cyfrifiad SSA ar gael ar-lein yn y Llyfr Gwyrdd.[1] Mae'r ddogfen '*Gwybodaeth gefndir ar gyfer asesiadau o wariant safonol*' yn amlinellu fformiwla'r Setliad – gan gynnwys sut y caiff y cyllid sydd ar gael ei ddosbarthu ar draws Asesiadau wedi'u Seilio ar Ddangosyddion (IBAs). Mae'r daenlen o'r enw '*IBAs gwasanaeth*' yn manylu ar gyfanswm gwerth SSA pob IBA, ac mae'r daenlen o'r enw '*Dangosyddion*' yn darparu'r data crai ar gyfer pob dangosydd unigol, gan gynnwys pwysoliadau perthnasol a'r cyfrannau canrannol ar draws pob awdurdod.

Gan ddefnyddio'r wybodaeth hon, mae'n bosibl efelychu sut y caiff y cyllid ar gyfer pob IBA ei ddosbarthu ar draws awdurdodau ac rwyf wedi cynnwys enghraifft wedi'i chwblhau yn Atodiad A.

Yr unig elfen ddata a allai fod ar goll yw tabl sy'n dangos dadansoddiad o gyfanswm yr SSA yn ôl IBAs unigol (er bod y broses gyffredinol yn cael ei disgrifio yn y ddogfen '*Gwybodaeth gefndir ar gyfer gwariant safonol*'). Rwyf wedi gofyn i'm swyddogion ystyried y ffordd orau o gynnwys yr wybodaeth hon mewn fersiynau o'r Llyfr Gwyrdd yn y dyfodol.

Gobeithiaf fod yr ymateb hwn yn ddefnyddiol wrth ymateb i'r cwestiynau a godwyd gan aelodau'r pwyllgor.

[1] Setliad refeniw a chyfalaf llywodraeth leol: gwybodaeth gefndir ar gyfer asesiadau o wariant safonol 2025 i 2026 | LLYW.CYMRU

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN
Gohebiaeth.Jayne.Bryant@llyw.cymru
Correspondence.Jayne.Bryant@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn gywir



**Jayne Bryant AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai
Cabinet Secretary for Housing and Local Government

**ATODIAD A – Enghraifft wedi'i chwblhau o gyfrifo'r cyllid**

Yn 2025-26, cyfanswm Asesiad wedi'i Seilio ar Ddangosyddion (IBA) *Addysgu mewn ysgolion meithrin ac ysgolion cynradd a gwasanaethau eraill* yw £1.387 biliwn (taflen waith '3' o'r daenlen '*IBAs gwasanaeth*'). Cyfrifir y ffigur hwn drwy gymryd cyfanswm yr Asesiad o Wariant Safonol (SSA) a'i ddadansoddi yn ôl data a gasglwyd ar gyfanswm cyfrif refeniw (gwariant wedi'i gyllidebu ar gyfer 2025-26) ac alldro refeniw (gwariant gwirioneddol ar gyfer 2024-25) awdurdodau lleol ar gyfer y maes IBA hwn. Yna, caiff y cyfanswm ar gyfer yr IBA ei luosi â'r pwysoliadau dangosyddion priodol ar gyfer yr IBA, a geir ar waelod y daflen waith '3':

- 81.5% ar gyfer nifer y disgyblion ysgol gynradd a disgyblion ysgol feithrin wedi'u modelu,
- 9.8% ar gyfer y boblogaeth ym mhob awdurdod y tu allan i aneddiadau o 1,000,
- 8.7% ar gyfer nifer y disgyblion ysgol gynradd sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim

Caiff y pwysoliadau hyn eu lluosi â chyfran ganrannol pob awdurdod o'r dangosydd hwnnw a geir yn y daenlen '*Dangosyddion*' (Disgyblion ysgol gynradd a disgyblion ysgol feithrin wedi'u modelu - taflen waith 2a, Poblogaeth y tu allan i aneddiadau o 1,000 - taflen waith 5a, Disgyblion ysgol gynradd sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim - taflen waith 2a).

Mae eu hadio at ei gilydd yn rhoi cyfran o gyfanswm yr IBA ar gyfer yr awdurdod hwnnw. Isod, ceir enghraifft wedi'i chwblhau ar gyfer Abertawe:

| Cyfanswm IBA | Pwysoliad | Cyfran Abertawe | Canlyniad |
|---|---|---|---|
| 1,387,273,000 | 0.815 | 0.077812187 | 87,976,598 |
| 1,387,273,000 | 0.098 | 0.045229959 | 6,149,137 |
| 1,387,273,000 | 0.087 | 0.086057083 | 10,386,466 |
| **Cyfanswm** | | | **104,512,202** |

Llywodraeth Cymru

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2026-27

Ymateb i Adroddiad y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai (Rhagfyr 2025)

23/01/2026

Ym mis Rhagfyr 2025, cyflwynodd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai ei adroddiad ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2026-27. Mae'r adroddiad yn cynnwys 11 o argymhellion ac 8 casgliad. Dyma ymateb Llywodraeth Cymru i'r argymhellion a'r casgliadau hynny.

# Cynnwys

**Cyflwyniad .......... 4**

**Ymateb i'r 11 Argymhelliad .......... 5**

Fformiwla Cyllido .......... 5

Argymhelliad 1 .......... 5

Argymhelliad 2 .......... 5

Atal ac arloesi mewn llywodraeth leol .......... 7

Argymhelliad 3 .......... 7

Argymhelliad 4 .......... 8

Cyllid cyffredinol ar gyfer Tai ac Adfywio .......... 9

Argymhelliad 5 .......... 9

Cymorth Tai a Digartrefedd .......... 10

Argymhelliad 6 .......... 10

Y Cyflenwad Tai .......... 11

Argymhelliad 7 .......... 11

Argymhelliad 8 .......... 12

Diogelwch adeiladau .......... 13

Argymhelliad 9 .......... 13

Safonau tai .......... 14

Argymhelliad 10 .......... 14

Tir .......... 14

Argymhelliad 11 .......... 14

**Ymateb i'r 8 Casgliad .......... 16**

Y setliad llywodraeth leol dros dro .......... 16

Casgliad 1 .......... 16

Atal ac arloesi mewn llywodraeth leol .......... 16

Casgliad 2 .......... 16

Cyllid cyffredinol ar gyfer Tai ac Adfywio .......... 17

Casgliad 3 .......... 17

Cymorth Tai a Digartrefedd ..... 18
Casgliad 4 ..... 18
Casgliad 5 ..... 18
Y Cyflenwad Tai ..... 19
Casgliad 6 ..... 19
Diogelwch Adeiladau ..... 20
Casgliad 7 ..... 20
Tir ..... 21
Casgliad 8 ..... 21

# Cyflwyniad

Ar 14 Hydref 2025, gosododd Llywodraeth Cymru ei Chyllideb Ddrafft amlinellol ar gyfer 2026-27 ac ar 3 Tachwedd 2025, gosododd ei Chyllideb Ddrafft fanwl.

Ar 20 Tachwedd 2025, cynhaliodd y Pwyllgor sesiwn graffu gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros Dai a Llywodraeth Leol i archwilio'r dyraniadau tai, adfywio a thir yn y gyllideb ddrafft. Cynhaliwyd sesiwn graffu arall gydag Ysgrifennydd y Cabinet ar 26 Tachwedd 2025 i edrych ar y dyraniadau ar gyfer llywodraeth leol a'r setliad llywodraeth leol dros dro.

Mae'r argymhellion yn dilyn y ddwy sesiwn graffu wedi cael eu hystyried yn ofalus. Hoffem ddiolch i aelodau'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai am eu cefnogaeth barhaus.

# Ymateb i’r 11 Argymhelliad

## Fformiwla Cyllido

### Argymhelliad 1

Rhaid i Lywodraeth Cymru gyhoeddi'r setliad llywodraeth leol diwygiedig gyda ffigurau dangosol cyn gynted â phosibl, a chyn cyhoeddi'r Gyllideb Derfynol ym mis Ionawr. Byddai hyn yn rhoi sicrwydd i awdurdodau lleol ac yn eu galluogi i gynllunio cyllidebau yn unol â hynny.

**Ymateb: Derbyn**

Darparwyd ffigurau diwygiedig i Awdurdodau Lleol ar 9 Rhagfyr 2025 i gefnogi eu gwaith cynllunio. Bydd y Setliad Llywodraeth Leol Terfynol yn cael ei gyhoeddi, gyda Chyllideb Derfynol Llywodraeth Cymru, ar 20 Ionawr 2026.

Goblygiadau Ariannol – bydd y gwaith hwn yn cael ei gyflawni o fewn y cyllidebau presennol.

### Argymhelliad 2

Rhaid i Lywodraeth Cymru flaenoriaethu'r adolygiad o'r data a'r dangosyddion sy'n sail i'r fformiwla cyllido fel bod setliadau yn y dyfodol yn deg ac yn adlewyrchu'n gywir anghenion cymunedau Cymru. Dylai roi cwmpas yr adolygiad i ni gan amlinellu pa ddata a dangosyddion sy'n cael eu hasesu, unrhyw amserlen sydd ynghlwm, y camau a gymerwyd, a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni am gynnydd.

**Ymateb: Derbyn**

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda llywodraeth leol i gynnal adolygiad manwl o'r elfennau unigol yn y fformiwla cyllido llywodraeth leol. Mae'r gwaith hwn yn canolbwyntio ar ailgalibradu'r pwysoliadau, ac adolygu a diweddaru'r dangosyddion a ddefnyddir i ddosbarthu cyllid, gyda'r brif fethodoleg sylfaenol, sy'n ystyried yr angen a'r adnoddau cymharol, yn aros yr un fath. Mae cwantwm y cyllid sydd ar gael y tu allan i gwmpas yr adolygiad hwn. Drwy weithio'n agos gyda llywodraeth leol a rhanddeiliaid drwy gydol yr adolygiad, y nod yw cynnal system sy'n parhau i gefnogi gwasanaethau lleol yn effeithiol. Mae aelod o staff amser llawn wedi'i neilltuo ar gyfer y gwaith hwn ac mae proses recriwtio adnodd dadansoddol pwrpasol ychwanegol yn mynd rhagddi. Mae Data Cymru hefyd wedi ymrwymo capasiti i gefnogi'r gwaith o gasglu a dadansoddi data.

Bydd yr adolygiad yn canolbwyntio'n bennaf ar ddefnyddio data o Gyfrifiad 2021 yn hytrach na data o hen Gyfrifiad (data o 1991 a 2001, sy'n dosbarthu tua £1.4bn

(18.5%) o SSA). Mae hyn yn golygu ailgalibradu pwysoliadau dangosyddion ac adolygu'r dewis o ddangosyddion i sicrhau eu bod yn dal i adlewyrchu orau yr angen cymharol i wario ar hyn o bryd.

Cymerodd y cyfnod peilot cychwynnol, a ddechreuodd yn 2024, olwg ragarweiniol ar y gwasanaeth tybiannol Meithrin a Chynradd (Asesiad wedi'i Seilio ar Ddangosyddion (IBA)). Y cam nesaf yw atgyfnerthu'r gwaith hwn ac ehangu i'r IBAs o Ysgolion Uwchradd ac Ysgolion Arbennig. Y cam nesaf yw dechrau asesu'r gofynion casglu data ar gyfer yr IBAs o Wasanaethau Cymdeithasol Personol (PSS) mwy cymhleth, cyn symud ymlaen i'r IBAs sy'n weddill sy'n dibynnu ar ddata'r Cyfrifiad. Mewn ymateb i drafodaethau yn DSG, mae potensial hefyd i adolygu IBA y Cyfrif Refeniw nad yw'n ymwneud â Thai, gan ystyried patrymau newidiol gwariant awdurdodau lleol sy'n gysylltiedig â digartrefedd.

Mae'r tabl isod yn amlinellu'r amserlenni arfaethedig ar gyfer pob ffrwd waith:

| Ffrwd waith | Amserlen |
|---|---|
| Cwmpasu a Chynllunio | Hydref 2025 |
| Ailgalibradu IBAs - Prif Feysydd Addysg | Hydref 2025 - Gwanwyn 2026 |
| Ailgalibradu IBAs - Gwasanaethau Cymdeithasol Personol | Gaeaf 2025 - Hydref 2026 |
| Ailgalibradu IBAs - Addysg sy'n Weddill | Gaeaf 2025 - Haf 2026 |
| Ailgalibradu IBAs eraill sy'n seiliedig ar y Cyfrifiad | Haf 2026 - Gwanwyn 2027 |
| Llywodraethu ac Ymgysylltu â Rhanddeiliaid | Parhaus |
| Modelu a Dadansoddi Effaith | Hydref 2026 - Gwanwyn 2027 |
| Lleddfu/Cyflwyno ac Adolygu'r Grant Amddifadedd | Gwanwyn 2027 - Haf 2027 |
| Cwblhau a Chymeradwyo | Haf 2027 |
| Parhau â gwaith Adolygu/Ailgalibradu IBA | Haf 2027 Ymlaen |

Mae llawer o'r gwaith a wnaed hyd yma wedi canolbwyntio ar gynllunio, sefydlu cysylltiadau allweddol a gosod y sylfeini ar gyfer yr adolygiad (er enghraifft, ymchwilio a phrofi modelau a methodolegau a ddefnyddiwyd yn ystod y gwaith

mawr diwethaf o galibradu pwysoliadau, tua 20 mlynedd yn ôl). Disgwylir canlyniadau mwy pendant wrth i ni nesáu at y gwanwyn.

Goblygiadau Ariannol – bydd y gwaith hwn yn cael ei gyflawni o fewn y cyllidebau presennol.

## Atal ac arloesi mewn llywodraeth leol

### Argymhelliad 3

Dylai Llywodraeth Cymru ymgorffori atal yn y broses o bennu cyllidebau, a chydnabod yr angen am newid sylfaenol er mwyn darparu adnoddau ar gyfer gwasanaethau ataliol.

**Ymateb - Derbyn mewn egwyddor**

Mae atal yn allweddol i wasanaethau cyhoeddus da. Mae'n gwella bywydau pobl a gall leihau costau yn y tymor hwy. Mae hefyd yn rhan hanfodol o weithredu yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol sy'n berthnasol i bob rhan o'r sector cyhoeddus.

O ran y rhan fwyaf o'r cyllid i lywodraeth leol, nid yw hwn wedi'i neilltuo; gall awdurdodau lleol ei ddefnyddio fel y mynnant ac yn unol ag amgylchiadau a blaenoriaethau lleol. Mae hyn yn bwysig oherwydd bydd atal yn golygu pethau gwahanol mewn gwasanaethau gwahanol ac mewn amgylchiadau a sefyllfaoedd gwahanol. Gellid disgrifio llawer o weithgareddau Llywodraeth Leol fel rhai ataliol mewn rhyw ffordd neu'i gilydd. Dyna pam rydym wedi bod yn awyddus i gydweithio i sicrhau mwy o eglurder a chysondeb yn y ffordd rydym yn diffinio ac yn asesu gwariant ataliol. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi'i darbwyllo gan y dadleuon o blaid clustnodi cyllid ataliol.

Roedd cyllideb 2025-26 - yn blaenoriaethu buddsoddi mewn atal ac mae hyn wedi parhau I 2026-27 - Rydym wedi ymrwymo o hyd i wella sut rydym yn nodi, yn mesur ac yn cyfleu gwariant ataliol. Rydym yn parhau i ddefnyddio'r diffiniad presennol y cytunwyd arno o wariant ataliol, sydd wedi bod yn sylfaen ddefnyddiol. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod pwysigrwydd gwreiddio'r diffiniad hwnnw'n ehangach ar draws sector cyhoeddus Cymru i gefnogi gwell cynllunio a gwerthuso.

Cyfarfu Ysgrifennydd y Cabinet dros Dai a Llywodraeth Leol â Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i drafod y mater hwn ac mae'n cefnogi ymdrechion i gryfhau'r ddealltwriaeth a'r defnydd o wariant ataliol ar draws gwasanaethau cyhoeddus. Mae hyn yn cynnwys archwilio sut gellir defnyddio'r diffiniad yn fwy cyson wrth gynllunio cyllidebau ac mewn asesiadau effaith a phrosesau craffu.

Gall y gwaith sy'n cael ei ddatblygu gan CIPFA a'r Sefydliad Iechyd ynghylch mapio gwariant ataliol a Chydweithrediad Ymchwil ar Benderfynyddion Iechyd (HDRC) rhwng Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwil Iechyd a Gofal gynnig awgrymiadau ymarferol i lywodraeth leol a Llywodraeth Cymru ynghylch sut i gefnogi dulliau o'r fath ymhellach. Roedd yr HDRC yn canolbwyntio'n sylweddol ar sut roedd gwariant awdurdodau lleol yn cyfrannu at yr agenda iechyd ac roedd gwaith CIPFA yn cynnig adnodd i awdurdodau lleol ystyried sut maen nhw'n mapio eu gwariant yn erbyn dosbarthiad atal, o'r sylfaenol i'r trydyddol. Mae hynny'n amrywio o gefnogi'r boblogaeth gyfan i atal ffactorau risg rhag codi yn y lle cyntaf, i gefnogi pobl sydd â chyflyrau parhaus i'w hatal rhag gwaethygu.

Goblygiadau Ariannol – Dim.

## Argymhelliad 4

Dylai Llywodraeth Cymru fod yn darparu arweinyddiaeth strategol i awdurdodau lleol a gosod llwybr clir ar gyfer mabwysiadu arfer da ac arloesi ynghylch gwasanaethau ataliol, gan hefyd eu hannog i fabwysiadu neu gyfiawnhau eu penderfyniadau.

**Ymateb: Derbyn**

Mae Llywodraeth Cymru yn darparu arweinyddiaeth strategol briodol drwy'r fframweithiau deddfwriaethol a chyllido sy'n galluogi llywodraeth leol i rannu arloesedd ac ymarfer a chraffu'n effeithiol ar eu gweithredoedd, gan gydnabod bod cynghorau'n atebol i'w hetholwyr eu hunain. Mae disgwyliadau clir o rôl Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol o ran rhannu a gwella arferion wedi'u nodi yn y Cytundeb Partneriaeth Strategol gyda llywodraeth leol a ddatblygwyd ar y cyd.

Rydym yn mynegi eglurder ychwanegol ar y meysydd penodol ar gyfer mabwysiadu arferion da a rhai sy'n dod i'r amlwg drwy'r Strategaeth Ddigidol i Gymru a Chynllun Deallusrwydd Artiffisial Cymru. Mae'r rhain yn darparu gweledigaeth a chynllun ar gyfer y sector cyhoeddus, yn ogystal â hyder yn null Llywodraeth Cymru o fuddsoddi mewn atebion digidol ar sail system gyfan.

O ran blaenoriaethau gwella penodol ar gyfer llywodraeth leol, lle bo hynny'n briodol, rydym yn egluro ein blaenoriaethau drwy lythyr cynnig Ysgrifennydd y Cabinet dros Dai a Llywodraeth Leol i CLlLC ar gyfer y Grant Gwella a Digidol, gwerth £2.15m yn 2026-27. Mae'r llythyr hwn yn sail i gynllun cyflawni'r Bwrdd Gwella dan Arweiniad y Sector. Mae'r bwrdd hwn yn darparu'r mecanweithiau i

lywodraeth leol fod yn berchen ar benderfyniadau a chamau gweithredu a bod yn atebol amdanynt.

Goblygiadau Ariannol – bydd y gwaith hwn yn cael ei gyflawni o fewn y cyllidebau presennol.

## Cyllid cyffredinol ar gyfer Tai ac Adfywio

### Argymhelliad 5

Dylai Llywodraeth Cymru flaenoriaethu tai, fel gwasanaeth ataliol hanfodol, ar gyfer derbyn unrhyw gyllid pellach sydd ar gael cyn y gyllideb derfynol.

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**
Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod tai fel gwasanaeth ataliol hanfodol, sy'n sail i ganlyniadau iechyd, llesiant, addysg ac economaidd gwell i bobl yng Nghymru. Mae tystiolaeth gadarn yn dangos bod cartrefi diogel o ansawdd da yn hanfodol i alluogi unigolion a theuluoedd i ffynnu a'u bod yn ganolog i gyflawni'r saith nod llesiant a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).

Yn unol â hyn, rydym wedi dyrannu £2.6m yn y Gyllideb Derfynol, yn ogystal â £4.7m a ddarparwyd yn y Gyllideb Ddrafft ar gyfer Cymorth ac Atal Digartrefedd. Mae hwn yn gynnydd cyffredinol o £7.3m yn 2026-27 i fynd i'r afael â'r pwysau heb ei ariannu yn sgil y Cyflog Byw Gwirioneddol, gan gefnogi sefydlogrwydd rheng flaen a dangos ein hymrwymiad i'r rhai mwyaf agored i niwed sydd mewn perygl o fod yn ddigartref.

Gellir dehongli atal yn eang iawn a gellid disgrifio llawer o weithgareddau Llywodraeth Cymru fel rhai ataliol mewn rhyw ffordd neu'i gilydd. Dyna pam rydym wedi bod yn awyddus i gydweithio i sicrhau mwy o eglurder a chysondeb yn y ffordd rydym yn diffinio ac yn asesu gwariant ataliol.

Rydym yn parhau i ddefnyddio'r diffiniad presennol y cytunwyd arno o wariant ataliol, sydd wedi bod yn sylfaen ddefnyddiol. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod pwysigrwydd gwreiddio'r diffiniad hwnnw'n ehangach ar draws sector cyhoeddus Cymru i gefnogi gwell cynllunio a gwerthuso.

Fel y nodwyd yn yr ymateb i Argymhelliad 3 uchod, cyfarfu Ysgrifennydd y Cabinet dros Dai a Llywodraeth Leol â Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i drafod y mater hwn ac mae'n cefnogi ymdrechion i gryfhau'r ddealltwriaeth a'r defnydd o wariant ataliol ar draws gwasanaethau cyhoeddus. Mae hyn yn cynnwys archwilio sut gellir defnyddio'r diffiniad yn fwy cyson wrth gynllunio cyllidebau ac mewn asesiadau effaith a phrosesau craffu.

Nid ydym wedi ein darbwyllo gan y dadleuon o blaid neilltuo cyllid ataliol, gan ein bod yn credu bod meincnodi yn ddull mwy pwerus ar gyfer sbarduno gwelliant.

Goblygiadau ariannol - Dim. Yn y Gyllideb Derfynol, dyrannwyd £2.6m i'r Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Digartrefedd ac Atal.

## Cymorth Tai a Digartrefedd

### Argymhelliad 6

Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi dadansoddiad y Sefydliad

Astudiaethau Cyllid o effaith newidiadau i Gyfraniadau Yswiriant Gwladol Cyflogwyr ar wasanaethau a gyllidir gan y Grant Cymorth Tai, yn ogystal ag unrhyw ddadansoddiad arall o effeithiau ehangach y newidiadau hyn ar draws y trydydd sector a darparwyr eraill.

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Mae dadansoddiad y Sefydliad Astudiaethau Cyllid o effaith newidiadau i Gyfraniadau Yswiriant Gwladol cyflogwyr eisoes ar gael i'r cyhoedd ac fe'i cyhoeddwyd ar 30 Hydref 2024: Increase in employer National Insurance contributions by employee earnings, 2025–26 | Sefydliad Astudiaethau Cyllid.

Mae'r data ategol yn cyflwyno amcangyfrifon o'r cynnydd cymesur yng nghostau cyflogwyr yn ôl enillion cyflogeion. Mae'r dadansoddiad hwn yn asesiad eang ledled y DU o'r effeithiau cyllidol ac ni chafodd ei gomisiynu gan Lywodraeth Cymru.

Helpodd dadansoddiad y Sefydliad Astudiaethau Cyllid i lywio gwaith modelu mewnol lefel uchel ar yr effaith debygol ar wasanaethau a ariennir drwy'r Grant Cymorth Tai (HSG). Fodd bynnag, fel yr amlinellwyd i'r Pwyllgor, mae cyfyngiadau sylweddol ar y gwaith modelu hwn, oherwydd diffyg data manwl gan Lywodraeth Cymru, ar lefelau cyflog a chyfansoddiad oriau gwaith staff a gyflogir gan wasanaethau a ariennir gan y Grant Cymorth Tai. Roedd y modelu lefel uchel yn dangos y gallai'r amcangyfrif o'r effaith fod rhwng £4.4m ac £8.25m ar gyfanswm cyllideb y Grant Cymorth Tai yn 2025-26.

Mae'n bwysig ailadrodd bod cyllideb y Grant Cymorth Tai wedi cynyddu £21m (neu 11.45%) yn 2025-26 ar yr un pryd ag y daeth cynnydd yng Nghyfraniadau Yswiriant Gwladol cyflogwyr i rym ym mis Ebrill y llynedd. Er nad dyma fwriad

gwreiddiol y cynnydd mewn cyllid, mae elfen ohono'n cael ei ddefnyddio i helpu i dalu am gynnydd yng Nghyfraniadau Yswiriant Gwladol cyflogwyr. Mae adroddiad **Materion Cartref** Cymorth Cymru a Cartrefi Cymunedol Cymru, a gyhoeddwyd ar 3 Rhagfyr, yn awgrymu bod 91% o ymatebwyr yr arolwg wedi defnyddio'r cynnydd yng nghyllid y Grant Cymorth Tai yn 2025-26 i dalu am gostau ychwanegol Cyfraniadau Yswiriant Gwladol cyflogwyr.

Ar ben hynny, cafodd y newidiadau hyn yr effaith fwyaf pan gawsant eu cyflwyno gyntaf. Mae hyn oherwydd y gostyngiad i'r trothwy lle mae cyflogwyr yn dechrau talu Cyfraniadau Yswiriant Gwladol (o £9,100 i £5,000), ynghyd â'r gyfradd uwch sy'n daladwy (o 13.8% i 15%). Felly, yn 2025-26, roedd 'newid sylweddol' cymesur mwy o faint i Gyfraniadau Yswiriant Gwladol cyflogwyr ar gyfer staff ar gyflog is a staff rhan-amser.

Nid oes dadansoddiad cadarn ychwaith i fesur effaith newidiadau i Gyfraniadau Yswiriant Gwladol cyflogwyr ar gyfer y sector cymorth tai yn ei gyfanrwydd (h.y. ar gyfer gwasanaethau nad ydynt yn cael eu hariannu gan y Grant Cymorth Tai), nac ar gyfer y trydydd sector ehangach yng Nghymru, oherwydd y cafeatau a grybwyllwyd yn flaenorol.

Goblygiadau ariannol – Dim.

## Y Cyflenwad Tai

### Argymhelliad 7

Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi cynllun gweithredu sy'n dangos sut bydd yn cyflymu'r gostyngiad yn nifer y tai gwag ac yn mynd i'r afael â'r materion a godwyd yn y gwerthusiad o'r cynllun Grant Tai Gwag.

### Ymateb: Derbyn

Mae cyhoeddi'r **Llawlyfr ar Eiddo Gwag yng Nghymru** yn ddiweddar (5 Rhagfyr 2025) yn dangos ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gyflymu'r gwaith o leihau nifer y cartrefi gwag a mynd i'r afael â'r materion a amlygwyd yn y gwerthusiad o'r cynllun Grant Cartrefi Gwag. Mae'r llawlyfr yn nodi cynllun gweithredu clir, strwythuredig, sy'n darparu canllawiau ymarferol i awdurdodau lleol a rhanddeiliaid ar arferion gorau, opsiynau cyllido a mesurau gorfodi. Drwy gyfuno cyfeiriad polisi a chyngor gweithredol mewn un adnodd, mae'n sicrhau dull gweithredu cyson ledled Cymru ac yn cryfhau'r ymdrechion i ailddefnyddio eiddo gwag yn fwy effeithlon.

Fel yr amlinellir yn y llawlyfr, mae'r Grant Cartrefi Gwag yn rhan o gyfres ehangach o ymyriadau, gan gynnwys Cynllun Lesio Cymru, Benthyciadau Trawsnewid Trefi, y Grant Creu Lleoedd, y Gronfa Datblygu Tir ac Adeiladau a'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer Llety Trosiannol. Ar ben hynny, cadarnhaodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Dai a Llywodraeth Leol ym mis Rhagfyr y byddai ffenestr ymgeisio'r Grant Cartrefi Gwag yn cael ei hymestyn tan fis Medi 2026, ochr yn ochr â chynllun peilot a fyddai'n dileu'r gofyniad i awdurdodau lleol ddarparu cyfraniad o 10% yn 2026-27. Mae'r cynllun peilot hwn yn ymateb yn uniongyrchol i un o'r materion a nodwyd yn y gwerthusiad annibynnol o'r grant a gyhoeddwyd yn ddiweddar.

Goblygiadau Ariannol – bydd y gwaith hwn yn cael ei gyflawni o fewn y cyllidebau presennol.

## Argymhelliad 8

Dylai Llywodraeth Cymru ystyried ymhellach a ddylid cyfyngu'r Cynllun Cymorth i Brynu – Cymru i brynwyr tro cyntaf, yn enwedig a fyddai cyfyngiad o'r fath yn sicrhau bod y cynllun yn canolbwyntio ar fynd i'r afael â'r achosion mwyaf dybryd o angen ymhlith y cyhoedd.

### Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n ystyried yr holl opsiynau yn y dyfodol sy'n gysylltiedig â chynllun Cymorth i Brynu - Cymru.

Er bod Llywodraeth flaenorol y DU wedi dod â'r cynllun Cymorth i Brynu i ben yn Lloegr ym mis Mawrth 2023, rydym yn darparu £57m yn ychwanegol i ymestyn ein cynllun Cymorth i Brynu - Cymru tan o leiaf fis Medi 2026.

Ers mis Ebrill 2022, mae 85% o brynwyr Cymorth i Brynu - Cymru wedi bod yn brynwyr tro cyntaf ac mae'r cynllun wedi helpu bron i 15,000 o bobl ym mhob sefyllfa i brynu cartref newydd yn ystod oes y cynllun.

Dylid nodi hefyd bod dros 70 o ddatblygwyr, busnesau bach a chanolig yn bennaf, wedi ymrwymo i gymryd rhan yn y cynllun a'u bod yn elwa o gwsmeriaid newydd.

Goblygiadau Ariannol – bydd y gwaith hwn yn cael ei gyflawni o fewn y cyllidebau presennol.

## Diogelwch adeiladau

### Argymhelliad 9

Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut cafodd tanwariant yn y Grant Cyfalaf Diogelwch Adeiladau ar gyfer 2024-25 ei ailbroffilio a faint o danwariant a ddisgwylir ar gyfer 2025-26.

**Ymateb: Derbyn**

Yn 2024-25, cafodd £67.67m o'r Grant Cyfalaf Diogelwch Adeiladau ei ailbroffilio i'r Rhaglen Gyfalaf Llety Trosiannol yn yr Ail Gyllideb Atodol, gan leihau'r dyraniad ar gyfer Diogelwch Adeiladau i £60m. Yn dilyn hyn, cafodd £34.88m arall ei ailbroffilio i fenthyciadau datblygu Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, gan gefnogi'r gwaith o ddarparu 277 o gartrefi cymdeithasol carbon isel ychwanegol a gwelliannau i fodloni Safon Ansawdd Tai Cymru 2023. Cafodd y gweddill ei ailflaenoriaethu tuag at feysydd blaenoriaeth eraill ym maes Tai ac Adfywio.

Ar gyfer 2025-26, mae rhagolwg y rhaglen Diogelwch Adeiladau wedi gostwng i £30m, gan adlewyrchu heriau parhaus o ran darparu. Mae'r rhain yn cynnwys cymhlethdod cyweirio diogelwch tân, cadwyni cyflenwi arbenigol cyfyngedig, ac amseroedd arwain estynedig - 12 i 18 mis yn aml o'r arolwg i'r cyfnod paratoi. Mae oedi yn y sector cymdeithasol hefyd wedi cael ei gysylltu â rheolau caffael newydd a gyflwynwyd ym mis Chwefror 2025 a phrinder contractwyr. Er gwaethaf mesurau lliniaru fel argaeledd contractwyr a benodir gan Lywodraeth Cymru a chamau monitro uwch, mae'r ffactorau hyn yn parhau i gyfyngu ar wariant.

Ar ben hynny, roedd cyllideb wreiddiol y rhaglen, sef £375m, yn seiliedig ar amcangyfrifon cynnar a oedd yn tybio bod cladin yn cael ei gyweirio yn eang. Mae ymchwiliadau dilynol wedi dangos bod angen i lai o adeiladau gael gwaith o'r fath, gyda llawer o faterion yn gofyn am ymyriadau llai costus.

Mae gwaith cyweirio diogelwch tân yn cael ei wneud mor gyflym â phosibl; nid yw argaeledd y gyllideb wedi cael unrhyw effaith negyddol ar ddarparu. Mae'r prosiectau hyn yn gymhleth ac yn destun llawer o ffactorau allanol y tu hwnt i reolaeth Llywodraeth Cymru.

Goblygiadau Ariannol - Mae'r tanwariant a ragwelir ar gyfer 2025-26 wedi cael ei ailbroffilio i feysydd blaenoriaeth eraill.

## Safonau tai

### Argymhelliad 10

Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi ffigurau sy'n dangos faint o gyllid Cartrefi Clyd a wariwyd yn ystod 2024-25, a faint y disgwylir y bydd yn cael ei wario yn 2025-26.

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**
Rydym wedi ymrwymo i gyhoeddi adroddiadau blynyddol sy'n amlinellu'r cynnydd o ran darparu gwasanaeth Nyth cyn gynted ag y bydd ein hystadegwyr wedi derbyn a dilysu'r data terfynol.

Bydd adroddiad blynyddol Nyth: Cartrefi Clyd ar gyfer 2024-25 yn cael ei gyhoeddi cyn diwedd y flwyddyn ariannol hon.

Ar gyfer 2025-26, dyrannwyd £37.5m i dalu am gynllun Nyth: Cartrefi Clyd a gwaith cyweirio yng Nghaerau, Bryn Carno ac Arfon. Bydd y gwariant terfynol a'r buddion cysylltiedig a gyflawnir drwy'r cynllun yn cael eu nodi yn yr adroddiad blynyddol ar gyfer Blwyddyn 2.

Goblygiadau ariannol - Dim.

## Tir

### Argymhelliad 11

Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut bydd yn gweithredu ei hymrwymiad i argymhelliad y Tasglu Tai Fforddiadwy i gynyddu'r cyflenwad o dir ar gyfer tai fforddiadwy.

**Ymateb: Derbyn**

Sefydlodd Llywodraeth Cymru Is-adran Tir i: ddatgloi potensial asedau cyhoeddus; ysgogi dull mwy gweithredol o ddefnyddio a datblygu tir er budd y cyhoedd; helpu i wella'r cyflenwad tir; hwyluso cydosod tir; a helpu i dynnu rhwystrau oddi ar dir segur, gwag ac adfeiliedig sydd mewn perchnogaeth gyhoeddus.

Mae rôl yr Is-adran Tir wedi datblygu dros amser gyda'r gwaith bellach yn rhan o'r Is-adran Lle, gan gyfuno swyddogaethau Tir ac Adfywio i ddarparu dulliau rhagweithiol sy'n seiliedig ar leoedd.

Mae'r Is-adran Lle yn ychwanegu'n rhagweithiol at ei phortffolio presennol ledled Cymru, fel y gwelir yn sgil caffaeliadau yn Hwlffordd a Phorthcawl. Roedd y rhain yn gaffaeliadau pwysig a oedd yn galluogi cynlluniau adfywio sylweddol sy'n cael eu harwain gan dai fforddiadwy yn y sector cyhoeddus i fynd rhagddynt ar raddfa fawr ac yn gyflym.

Mae piblinell o safleoedd tir ar gyfer darparu datblygiadau sy'n cael eu harwain gan dai fforddiadwy yn agwedd bwysig nid yn unig o ran darparu tai yn y tymor byr, ond hefyd yn y tymor canolig/hwy. Fel rhan o Dasglu Tai Fforddiadwy Llywodraeth Cymru, mae'r Is-adran Lle yn mynd ati'n rhagweithiol i nodi tir y gellid ei ddatblygu.

Ni fyddwn yn cystadlu â'r farchnad ar y safleoedd rydym yn bwriadu eu caffael. Mae gennym ddiddordeb yn y safleoedd anodd hynny sy'n segur am amryw o resymau.

Nid dim ond y safleoedd strategol mwy o faint sydd o ddiddordeb i ni. Gall safleoedd llai sy'n segur ledled Cymru wneud cyfraniad pwysig at y cyflenwad tai, gan gefnogi'r economi sylfaenol a gall adeiladwyr tai sy'n fusnesau bach a chanolig chwarae rhan bwysig yn y broses honno.

Rydym wedi cwrdd â phob Bwrdd Iechyd ac Ymddiriedolaeth yng Nghymru i drafod pa mor addas yw tai ar y safleoedd gwag a'r safleoedd dros ben sydd ganddynt. Byddwn yn parhau i weithio gyda nhw ac yn darparu cymorth lle bo angen i helpu gyda'r broses.

Mae gennym gyllid hefyd drwy'r Gronfa Datblygu Tir ac Adeiladau i helpu Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig ac awdurdodau lleol i ddatblygu eu safleoedd segur ar gyfer darparu cartrefi fforddiadwy. Mae'r gronfa'n canolbwyntio ar helpu gyda chostau anarferol sy'n gysylltiedig â thir sy'n anodd ei ddarparu ac ailbwrpasu adeiladau at ddefnydd preswyl.

Goblygiadau ariannol – Dim.

# Ymateb i'r 8 Casgliad

## Y setliad llywodraeth leol dros dro

### Casgliad 1

Byddem yn annog arloesi mewn meysydd eraill i alluogi awdurdodau lleol i ariannu gwelliannau mewn ysgolion, seilwaith lleol a meysydd craidd eraill o wariant cyfalaf.

### Ymateb

Defnyddir amrywiaeth o ddulliau i gefnogi gwariant cyfalaf awdurdodau lleol. Mae'r rhain yn cynnwys y cyllid cyfalaf cyffredinol heb ei neilltuo, grantiau cyfalaf ar wahanol gyfraddau cymorth a chyllid i gefnogi benthyca fel drwy'r rhaglen rheoli risgiau arfordirol (CRMP) a'r Fenter Benthyca Llywodraeth Leol yng nghyswllt Priffyrdd (LGBI). Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda llywodraeth leol i gytuno ar fecanweithiau priodol ar gyfer gwahanol raglenni, gan ystyried y cyllid cyfalaf a refeniw sydd ar gael, y cydbwysedd risgiau i Lywodraeth Cymru a llywodraeth leol, a chostau cymharol benthyca.

## Atal ac arloesi mewn llywodraeth leol

### Casgliad 2

Yn absenoldeb cyllid digonol, credwn fod arweinyddiaeth gan Lywodraeth Cymru yn hanfodol i ddarparu cyfeiriad ac arweiniad strategol clir i awdurdodau lleol. Mae angen i Lywodraeth Cymru helpu'r sector i gael gwared ar rwystrau rhag arloesi ac i sicrhau bod arferion da yn cael eu rhannu'n effeithiol. Rydym yn siomedig â'r diffyg pwyslais ar gynllunio ar gyfer y dyfodol a'r ffocws cyfyngedig ar arloesi a gwaith partneriaeth. Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu cyfeiriad, blaenoriaethau a chymorth clir i awdurdodau lleol, gan eu galluogi i fabwysiadu dulliau arloesol, profedig o ymdrin â gwasanaethau ataliol. Dylai fod yn ofynnol i awdurdodau lleol ddarparu cyfiawnhad os na chaiff y gwasanaethau hyn eu gweithredu.

### Ymateb

Rydym yn cytuno bod atal yn hanfodol i gefnogi canlyniadau gwell a helpu i leihau'r straen ar wasanaethau. Rydym hefyd yn cydnabod pwysigrwydd cefnogi dulliau arloesol, yn enwedig yng nghyd-destun cyllid cyfyngedig a phwysau cynyddol.

Ein rôl yw gweithio mewn partneriaeth â'r sector i arloesi a rhannu arferion, nid cyflwyno gofynion ychwanegol sydd mewn perygl o danseilio penderfyniadau lleol ac ychwanegu cymhlethdod diangen. Mae'r dull hwn yn cyd-fynd â'n hymrwymiad i egwyddor sybsidiaredd, gan sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu gwneud mor agos â phosibl at y cymunedau y maent yn effeithio arnynt, gan barchu atebolrwydd democrataidd ar wahân awdurdodau lleol. Nid yw Llywodraeth Cymru yn credu y byddai cyfarwyddo neu fynnu dulliau gweithredu penodol yn gyson â'r egwyddor hon ac felly mae wedi mabwysiadu dull gweithredu sydd wedi'i ddylunio i rymuso awdurdodau lleol i arloesi a theilwra atebion i anghenion lleol.

Mae CLlLC yn arwain y Bwrdd Gwella dan Arweiniad y Sector i gyflawni ei gynllun i ddarparu cymorth ar gyfer materion digidol, data a gwelliannau ar gyfer y sector cyfan. Rydym yn cefnogi'r cynllun hwn gyda £2.15m o gyllid i gefnogi arloesi a rhannu arferion.  Ar ben hynny, mae Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn darparu mecanwaith i gyrff y sector cyhoeddus ar ôl troed lleol i gyflawni cynlluniau llesiant. Mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn darparu llwyfannau cryf ar gyfer cydweithio, gan alluogi partneriaid i gyfuno adnoddau a rhannu arbenigedd gan ddefnyddio'r pum ffordd o weithio - un ohonynt yw atal.

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd arloesi a chynllunio ar gyfer y dyfodol, ac er mai awdurdodau lleol a'u partneriaid sy'n gyfrifol am weithredu, byddwn yn parhau i ddarparu cymorth ac arweiniad strategol, lle bo hynny'n briodol. Mae ein hathroniaeth yn parhau i fod yn glir: galluogi a chefnogi gwelliant sy'n cael ei arwain gan y sector drwy gydweithio a rhannu gwybodaeth, gan adlewyrchu ein hyder yng ngallu'r sector i arwain newid cynaliadwy.

## Cyllid cyffredinol ar gyfer Tai ac Adfywio

### Casgliad 3

Gallai argaeledd dadansoddiad cost a budd wedi'i ddiweddaru fod wedi bod yn ddefnyddiol i Ysgrifennydd y Cabinet o ran sicrhau canran uwch o'r gyllideb gyffredinol ar gyfer tai ac adfywio ac rydym yn siomedig nad yw ein hargymhelliad o'r llynedd wedi cael ei weithredu, er ei fod wedi cael ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru. Dylai Llywodraeth Cymru fwrw ymlaen â'r gwaith o ddatblygu dadansoddiad cost a budd wedi'i ddiweddaru o effeithiau buddsoddi mewn tai ac adfywio ar wariant cyhoeddus ehangach.

**Ymateb**

Mae manteision buddsoddi mewn tai ar wariant cyhoeddus ehangach wedi'u hen sefydlu ac mae tystiolaeth o hynny. Mae hyn wedi bod yn sail i'n lefel barhaus o fuddsoddi mwy nag erioed mewn tai fforddiadwy, sy'n llywio'r broses ddarparu.

Darparwyd tystiolaeth ddiweddar yn yr adroddiad a gyhoeddwyd gan Savills, a oedd yn asesu effaith cymdeithasau tai yng Nghymru ar draws themâu allweddol (pobl, yr economi a gwasanaethau cyhoeddus).

Mae gwerthusiad o'r Rhaglen Trawsnewid Trefi eisoes wedi cael ei gomisiynu a bydd yn arwain at adroddiad ddechrau'r flwyddyn nesaf (Mawrth 2026). Bydd y gwerthusiad yn edrych ar effaith ein buddsoddiad ar gefnogi prosiectau adfywio yng Nghymru.

Rydym yn defnyddio'r wybodaeth hon i gefnogi'r gwaith o ddatblygu ein strategaeth ac i sicrhau bod buddsoddi strategol mewn cartrefi ar draws pob deiliadaeth yn rhywbeth a fydd yn rhan o gynllunio cyllidebau traws-lywodraethol yn y dyfodol.

## Cymorth Tai a Digartrefedd

### Casgliad 4

Credwn y dylai Llywodraeth Cymru fod yn fwy rhagweithiol wrth wthio am gynnydd yng nghyfraddau'r Lwfans Tai Lleol y gall awdurdodau lleol ei hawlio i wrthbwyso costau llety dros dro. Mae Llywodraeth Cymru wedi ysgrifennu at Lywodraeth y DU, ond credwn fod angen ymdrechion mwy cadarn.

**Ymateb**

Mae Llywodraeth Cymru yn rhannu pryder y Pwyllgor ynghylch effaith cyfraddau presennol y Lwfans Tai Lleol sy'n berthnasol i lety dros dro, sy'n cyfyngu ar allu awdurdodau lleol i wrthbwyso costau darparu llety dros dro i bobl sy'n ddigartref.

Byddwn yn parhau i bwyso'n gryf ar Lywodraeth y DU am gynnydd yng nghyfraddau'r Lwfans Tai Lleol.

### Casgliad 5

Mae'r Grant Cymorth Tai yn faes allweddol o wariant ataliol a dylid ei flaenoriaethu ar gyfer cyllid ychwanegol yn unol ag argymhelliad 5.

**Ymateb**

Rydym yn cytuno â'r Pwyllgor bod y Grant Cymorth Tai yn faes allweddol o wariant ataliol. Mae Llywodraeth Cymru wedi parhau i flaenoriaethu

buddsoddiad ar gyfer y Grant Cymorth Tai ac wedi cynyddu'r gyllideb dros 60% - neu £77m - ers ei sefydlu yn 2019. Rydym wedi pennu cynnydd sylfaenol yn y gyllideb yn gyson ac rydym yn adeiladu ar y cynnydd hwn yng Nghyllideb Ddrafft 2026-27.

Yn ogystal â'r cynnydd o £4.1m yn y cyllid a ddyrannwyd yng ngham y gyllideb ddrafft, rydym wedi dyrannu £2.6m arall ar gyfer Cymorth ac Atal Digartrefedd yn y Gyllideb Derfynol er mwyn mynd i'r afael â'r pwysau heb ei ariannu yn sgil y Cyflog Byw Gwirioneddol. Mae hyn yn golygu £6.7m ychwanegol i'r Grant Cymorth Tai yn 2026-27, gan ddod â chyfanswm y gyllideb i £211m. Bydd hyn yn cefnogi sefydlogrwydd rheng flaen ac yn dangos ein hymrwymiad i'r rhai mwyaf agored i niwed sydd mewn perygl o fod yn ddigartref.

## Y Cyflenwad Tai

### Casgliad 6

Yn sgil cynyddu chwyddiant yn dilyn Datganiad Cyllideb yr Hydref Llywodraeth y DU, rydym yn nodi bod llwyddiant Llywodraeth Cymru o ran sicrhau 20,000 o gartrefi erbyn diwedd 2026 yn dibynnu ar gyfres o dybiaethau sy'n mynd i fod yn heriol eu cyflawni.

### Ymateb

Rydym yn cydnabod yr heriau parhaus y mae'r sector yn eu hwynebu. Ers 2021, rydym wedi wynebu pandemig byd-eang, argyfwng costau byw, effaith Brexit ar gadwyni cyflenwi, chwyddiant uchel a chyllideb fach drychinebus yn nwylo Llywodraeth flaenorol y DU - i gyd yn effeithio'n sylweddol ar y sector adeiladu tai.

Mae'r gwaith cyflawni rhagamcanol a **gyhoeddwyd** gennym ym mis Tachwedd yn cynrychioli ein piblinell yn 2026 - ac amcangyfrifon y sector o'n taflwybr, yng nghyd-destun yr heriau hyn a heriau eraill.

Daw'r amcangyfrifon o wybodaeth reoli a gasglwyd drwy gydol y flwyddyn. Mae'r data hwn yn cefnogi'r gwaith o fonitro'r ddarpariaeth tai sy'n gysylltiedig â rhaglenni a ariennir gan y llywodraeth. Ochr yn ochr â'r datganiad ystadegol, gwnaethom gyhoeddi blog y Prif Ystadegydd a oedd yn rhoi gwybodaeth ychwanegol i ddefnyddwyr am gryfderau a chyfyngiadau'r ystadegau swyddogol a'r wybodaeth reoli. Mae'r Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau wedi cefnogi ein dull o gyhoeddi gwybodaeth reoli fwy amserol ochr yn ochr â'r ystadegau swyddogol achrededig.

Mae oedi naturiol hefyd rhwng y buddsoddiad sy'n cael ei wneud a'r gwaith adeiladu tai sy'n cael ei gwblhau, a dyna pam mae'r ystadegau'n dangos mwy o ddarpariaeth wrth i ni nesáu at ddiwedd Tymor y Senedd.

Mae cynnal cyllidebau ar y lefelau uchaf erioed yn rhan bwysig o gynnal hyder y sector a pharhau i gyflawni uchelgeisiau yn y dyfodol.

Rydym yn parhau i fonitro cynnydd o ran cyflawni a, gyda chefnogaeth 'Argymhellion y Tasglu Tai Fforddiadwy - Grŵp Gweithredu', rydym yn bwrw ymlaen â gwaith i fynd i'r afael â rhwystrau rhag cyflawni, gan gynnwys drwy nodi tir cyhoeddus, darparu adnoddau ar gyfer y system gynllunio, olrhain cynlluniau a chymorth sgiliau.

## Diogelwch Adeiladau

### Casgliad 7

Dros nifer o flynyddoedd rydym wedi codi'r angen dybryd i gyflymu'r gwaith cyweirio ar adeiladau preswyl uchel iawn a byddwn yn parhau i wneud hynny. Er gwaethaf hyn, ac er gwaethaf y sicrwydd a roddwyd gan Lywodraeth Cymru bod gwneud y gwaith cyweirio yn flaenoriaeth, rydym yn bryderus iawn bod lesddeiliaid yn parhau i fynegi pryderon sylweddol gyda ni am y diffyg cynnydd. Mae'r tanwariant parhaus o'r gronfa hon yn dangos nad yw'r dull presennol o gyweirio wedi arwain at waith yn cael ei wneud ar y cyflymder sy'n ofynnol. Dewisodd Ysgrifennydd y Cabinet beidio â defnyddio Bil Diogelwch Adeiladau (Cymru) i ddeddfu ar gyfer y gwaith hwn, a'n harweiniodd i argymell bod darpariaethau ar gyfer terfynau amser a sancsiynau y gellir eu gorfodi'n gyfreithiol mewn perthynas â chyweirio, ac ar gyfer cosbau am fethiannau gan ddatblygwyr i fynd i'r afael â diffygion, yn cael eu cyflwyno.

**Ymateb**

Fel y nodwyd mewn ymateb i Argymhelliad 9 uchod, mae gwaith cyweirio diogelwch tân yn eithriadol o gymhleth. Mae'r rhaglen yn mynd rhagddi mor gyflym â phosibl ac nid yw argaeledd y gyllideb wedi cael unrhyw effaith negyddol ar gyflawni. Ar ben hynny, fel y dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Dai a Llywodraeth Leol yn ei hymateb i adroddiad Cam 1 y Pwyllgor ar y Bil Diogelwch Adeiladau (Cymru), ni fyddai'n briodol cynnwys amserlenni y gellir eu gorfodi'n gyfreithiol ar gyfer gwaith cyweirio yn y Bil. Mae datblygwyr wedi llofnodi contract sy'n ymrwymo i gyweirio'r adeiladau y maent yn gyfrifol amdanynt.

## Tir

### Casgliad 8

Rydym yn siomedig nad yw'r gyllideb ddrafft hon yn dangos unrhyw newid yn null Llywodraeth Cymru o ymdrin â thir o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol. Yn hytrach na dibynnu ar dderbyniadau o werthu tir ar gyfraddau'r farchnad, dylai Llywodraeth Cymru gydnabod bod buddsoddi mewn tir cyhoeddus, a gwaith yr Is-adran Tir, yn agwedd hanfodol ar y cyflenwad tai cymdeithasol a bod angen ei ehangu er mwyn datblygu'r safleoedd mawr sydd eu hangen ar Gymru.

**Ymateb**

Nid yw sefyllfa bresennol y gyllideb ddrafft wedi cael effaith negyddol ar weithgarwch yr Uned Tir. Er bod angen derbyniadau gwerthu ar hyn o bryd i fynd i'r afael â'r sefyllfa refeniw negyddol, mae'r gwerthiannau'n dal i fynd rhagddynt ar sail sicrhau'r canlyniadau polisi gorau posibl, yn hytrach na chynhyrchu'r derbyniadau mwyaf posibl. Mae hyn yn amlwg o'r tir a werthwyd yn ddiweddar yn Fferm Cosmeston i Barratt Redrow lle bydd y datblygiad cyffredinol, ar y farchnad fforddiadwy a'r farchnad breifat, yn mynd rhagddo yn unol â safonau Gofynion Ansawdd Datblygu Cymru. Bydd hyn yn 50% fforddiadwy a bydd y datblygiad cyffredinol yn garbon sero net ar waith.

Mae'r Uned Tir yn yr Is-adran Lle yn parhau i fynd ar drywydd nifer o gaffaeliadau tir posibl ledled Cymru. Mae'n targedu safleoedd datblygu segur, gyda'r nod o leihau eu risg ar ôl eu caffael a chyfrannu at y biblinell o safleoedd y cyfeirir atynt ar gyfer datblygiadau sy'n cael eu harwain gan dai fforddiadwy. Nid yw sefyllfa'r gyllideb wedi cael effaith ar y gweithgarwch hwn.

O ran trosglwyddo tir am ddisgownt i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig er enghraifft, mae'n bwysig nodi y bydd y tir yn cael ei drosglwyddo am ei werth ar y farchnad. Bydd y "gwerth ar y farchnad" yn adlewyrchu safbwynt polisi Llywodraeth Cymru ar gyfer y safle ac mae'n debygol y bydd yn darparu mwy o dai fforddiadwy na'r hyn a nodir yn y cynllun datblygu lleol ac i safonau uwch. Felly, mae hyn yn debygol o fod ar werth is nag y gellid ei gyflawni yn y farchnad.

Byddwn yn parhau i adolygu cyllideb yr Uned Tir i sicrhau nad yw ei gweithgareddau'n cael eu llesteirio gan bwysau i werthu tir i godi arian.